Pecyn Dogfen Cyhoeddus


At: Aelodau'r Pwyllgor Craffu Perfformiad

Dyddiad: 20 Medi 2024

Rhif Union: 01824 712554

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk


Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD, DYDD IAU, 26 MEDI 2024** am **10.00 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN A THRWY GYNHADLEDD FIDEO**.

Yn gywir iawn

G Williams
Swyddog Monitro

**AGENDA**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGANIADAU O FUDDIANT** (Tudalennau 5 - 6)

Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

**4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF** (Tudalennau 7 - 14)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf 2024 (copi ynghlwm).

**5 DIWEDDARIAD AR DRAWSNEWID ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL** (Tudalennau 15 - 20)

Derbyn adroddiad yn rhoi diweddariad i'r pwyllgor ar y cynnydd a wnaed i sicrhau bod yr Awdurdod Lleol ac ysgolion yn bodloni eu gofynion statudol o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (copi ynghlwm).

**10:10am – 10:40am**

**6 HYRWYDDO PRESENOLDEB YSGOL AC YMGYSYLLTU MEWN ADDYSG** (Tudalennau 21 - 86)

Derbyn adroddiad sy'n hysbysu'r pwyllgor ar y sefyllfa bresennol o ran presenoldeb Ysgol ac ymgysylltu ag addysg a'r ymateb a gymerwyd i fynd i'r afael â materion pan fo pryder yn bodoli ar lefel disgyblion unigol yn Sir Ddinbych (copi ynghlwm).

**10:40am – 11:10am**

**EGWYL 11:10am - 11:25am**

**7 TRAWSNEWID CYNLLUNIAU STRATEGOL CYMRAEG MEWN ADDYSG** (Tudalennau 87 - 100)

To receive a report on the progress made to date in delivering the Welsh in Education Strategic Plan (WESP) in all the county's schools in line with the Welsh Government's vision for Welsh language provision (copy attached).

**11:25am – 11:55am**

**8 CWRICWLWM I GYMRU** (Tudalennau 101 - 106)

Derbyn adroddiad yn diweddaru'r pwyllgor ar y cynnydd a wnaed gan ysgolion ers i'r Cwricwlwm i Gymru ddod yn statudol ym mis Medi 2022. Mae'r adroddiad yn cynnig gwybodaeth am wersi a ddysgwyd o werthusiadau ar draws ysgolion yn ystod y cyfnod gweithredu cychwynnol hwn ac unrhyw effaith ar staff a dysgwyr (copi ynghlwm).

**11:55am – 12:25pm**

**9 RHAGLEN WAITH CRAFFU** (Tudalennau 107 - 134)

Ystyried adroddiad gan y Cydlynydd Craffu (copi ynghlwm) sy'n ceisio adolygiad o raglen waith y Pwyllgor ac yn cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am faterion perthnasol.

**12:25pm – 12:40pm**

**10 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGOR**

Derbyn y wybodaeth ddiweddaraf gan gynrychiolwyr y Pwyllgor ar Fyrddau a Grwpiau amrywiol y Cyngor.

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

Y Cynghorydd Hugh Carson Irving (Cadeirydd)

Y Cynghorydd Gareth Sandilands (Is-Gadeirydd)

Ellie Chard
Bobby Feeley
Martyn Hogg
Carol Holliday

Alan Hughes
Paul Keddie
Terry Mendies
Andrea Tomlin

**Aelodau Cyfetholedig dros Addysg sy'n Pleidleisio (Rhifau Eitemau Agenda 5,6,7 ac 8 yn unig)**

Colette Owen

Neil Roberts

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000**

**Cod Ymddygiad Aelodau**

## DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

| | |
|---|---|
| Rwyf i,<br>(enw) | |
| *Aelod /Aelod cyfetholedig o<br>*(*dileuer un)* | **Cyngor Sir Ddinbych** |

**YN CADARNHAU** fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
*(*dileuer un)*

| | |
|---|---|
| Dyddiad Datgelu: | |
| Pwyllgor (nodwch): | |
| Agenda eitem | |
| Pwnc: | |
| Natur y Buddiant:<br>*(Gweler y nodyn isod)** | |
| Llofnod | |
| Dyddiad | |

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD**

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun a thrwy gynhadledd fideo ddydd Iau, 18 Gorffennaf 2024 am 10.00am.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr Gareth Sandilands (Is-Gadeirydd), Ellie Chard, Bobby Feeley, Martyn Hogg, Carol Holliday, Alan Hughes, Paul Keddie, Terry Mendies, ac Andrea Tomlin.

Aelod Cabinet Arweiniol Iechyd a Gofal Cymdeithasol - roedd y Cynghorydd Elen Heaton yn bresennol ar wahoddiad y Pwyllgor ar gyfer eitemau 5 a 6.

**HEFYD YN BRESENNOL**

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau, Moderneiddio a Lles (NS), Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Digartrefedd (AL), Rheolwr Gwasanaeth, Gwasanaeth Cefnogaeth Gymunedol Cefndy (NB), Cyd-bennaeth Gwasanaeth Addysg a Phlant (RM), Cydlynydd Craffu (RE), Gweinyddwr Pwyllgorau (KJ - Gweddarlledu), a Chydlynydd Busnes (RPJ - Cofnodion).

**1 YMDDIHEURIADAU**

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Hugh Irving (Cadeirydd) a’r Cynghorydd Diane King, ynghyd â’r Aelod Arweiniol Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd. Cafwyd ymddiheuriadau hefyd gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Llywodraethu a Busnes, Gary Williams. Roedd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg yn bresennol ar gyfer eitemau busnes 5 a 6 ac ymgymerodd hefyd â rôl gefnogi’r Tîm Gweithredol Corfforaethol ar gyfer y cyfarfod.

Yn absenoldeb y Cadeirydd, cadeiriodd yr Is-Gadeirydd y cyfarfod.

**2 DATGAN CYSYLLTIAD**

Ni ddatganodd unrhyw aelod gysylltiad personol nac un sy’n peri rhagfarn yn unrhyw un o’r eitemau busnes i’w trafod yn y cyfarfod.

**3 MATERION BRYS Y CYTUNWYD ARNYNT GAN Y CADEIRYDD**

Ni chodwyd unrhyw eitemau brys gyda’r Cadeirydd na’r Cydlynydd Craffu cyn dechrau’r cyfarfod.

## 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad a gynhaliwyd ar 6 Mehefin 2024. Felly:

***Penderfynwyd**: cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad a gynhaliwyd ar 6 Mehefin 2024 fel cofnod gwir a chywir o'r gweithrediadau.*

Materion yn codi:

Tudalen 12, 'Y wybodaeth ddiweddaraf ar y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a Chynllun ar gyfer 2025/26 i 2027/28 ac Adolygu Gwytnwch a Chynaliadwyedd Ariannol y Cyngor - Incwm a Ragwelir o Ffioedd Parcio': dywedodd y Cydlynydd Craffu fod Prif Swyddog Ariannol y Cyngor wedi dweud ei bod yn gynnar iawn yn y flwyddyn ariannol i ragweld incwm dros y flwyddyn gyfan gydag unrhyw sicrwydd. Ar gyfer misoedd cyntaf y flwyddyn ariannol, ymddengys bod yr incwm yn cymharu â'r blynyddoedd blaenorol, felly rhagwelir bod y Gwasanaeth ar y trywydd iawn i gyflawni'r incwm ychwanegol a ragwelir. Fodd bynnag, byddai ffactorau allanol megis y tywydd a'r niferoedd fyddai'n mynychu digwyddiadau mawr mewn trefi mawr yn effeithio ar yr incwm parcio. Dylai fod darlun cliriach ar gael erbyn diwedd yr hydref o'r incwm a ragwelir. Gofynnodd yr aelodau am gael y wybodaeth ddiweddaraf am ffigurau incwm parcio a pherfformiad y Gwasanaeth i gyflawni ei ffigurau incwm a ragwelwyd cyn diwedd y flwyddyn galendr.

## 5 ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT CYFARWYDDWR Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2023/24

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Iechyd a Gofal Cymdeithasol (EH) yr adroddiad (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) yn crynhoi'r cynnydd sylweddol yn yr angen am wasanaethau gofal cymdeithasol a phroblemau recriwtio a chadw yn y sector, felly roedd y cynnydd wedi bod yn arafach ac roedd y perfformiad wedi dirywio yn erbyn y dangosyddion allweddol oherwydd y pwysau. Byddai'r pwyslais yn y dyfodol ar y rhaglen drawsnewid.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg (NS) ei fod yn ofyniad statudol i lunio'r adroddiad a bod ei fformat a'i gynnwys yn cael eu gosod gan Lywodraeth Cymru, felly roedd cyfyngiadau o ran faint y gallai Cyngor Sir Ddinbych addasu'r adroddiad. Fodd bynnag, byddai fformat newydd cyn bo hir gan Lywodraeth Cymru.

Diolchodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg (NS) i'r adran, partneriaid a gofalwyr anffurfiol am eu gwaith caled parhaus. Roedd y tîm yn parhau i weithredu fel gwasanaeth cyfunol gydag Addysg a Gofal Cymdeithasol, ac roedd ganddo benaethiaid gwasanaeth ar y cyd ynghyd â chyllideb a chynllun gwasanaeth ar y cyd.

Yna agorodd y Cadeirydd y drafodaeth ar gyfer unrhyw gwestiynau.
Gan ymateb i gwestiynau'r Aelodau, dywedodd y swyddogion:

- Bod recriwtio a chadw yn her drwy'r adroddiad cyfan, yn enwedig mewn Gwasanaethau Plant. Nid oedd yr anawsterau a wynebir yma yn newydd i'r cyfnod adrodd hwn, roedd craffu wedi cael gwybod am y mater sawl tro o'r blaen. Roedd yr adran wedi gwneud gwaith penodol pellach, gan edrych ar y rhesymau a roddwyd mewn cyfweliadau gadael, datblygu'r staff presennol, hyrwyddo'r cynnig gweithio'n hyblyg yn barhaus a lobïo'n genedlaethol am gynnydd mewn cyflogau i'r sector. Fodd bynnag, roedd hon yn broblem genedlaethol, nid oedd digon o staff Gwaith Cymdeithasol erbyn hyn ac felly nid oedd digon o weithwyr newydd gymhwyso'n ymuno â'r proffesiwn. Felly hefyd Iechyd Meddwl, roedd prinder cenedlaethol o weithwyr proffesiynol yn y gwasanaeth. Roedd Sir Ddinbych yn edrych ar strwythur presennol y tîm ac yn dyrannu gwaith i ryddhau Ymarferwyr Iechyd Meddwl Cymeradwy i ganolbwyntio ar y gwaith yr oedd yn ofynnol iddynt ei wneud yn statudol.
- Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg ei bod hi a chyd aelodau Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn lobïo Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC), y Gymdeithas Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ac eraill yn barhaus am well cyflog i weithwyr yn y sector gofal, yn cynnwys yr un telerau ac amodau â gweithwyr y Gwasanaeth Iechyd Gwladol.
- Roedd yr adroddiad yn feichus, ac roedd y Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Digartrefedd (AL) yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar y fformat newydd ar gyfer adroddiadau blynyddol yn y dyfodol, ond roedd yn ansicr faint o'u mewnbwn fyddai'n cael ei gynnwys. Byddai'r fformat newydd yn well gobeithio, byddai'n cynnwys adran ar berfformiad gyda data a byddai'n gwahanu gwybodaeth am Wasanaethau Oedolion a Gwasanaethau Plant yn gliriach. Croesawyd yr Astudiaethau Achos yn yr adroddiad, oedd yn rhoi darlun defnyddiol o ba mor gymhleth oedd darparu'r mathau cywir o wasanaethau er mwyn bod yn addas i unigolion.
- Trafodwyd cynhwysiant digidol a phwysigrwydd estyn allan i breswylwyr hŷn a'r rhai oedd wedi eu heithrio'n ddigidol. Roedd gan y cynllun 'Heneiddio'n Dda yn Sir Ddinbych' rôl allweddol yn hyn, yn enwedig yn ardaloedd gwledig Sir Ddinbych. Roedd 'Hyder Digidol' yn gynllun arall oedd â'r nod o feithrin hyder digidol, wedi'i ariannu drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin.
- Anghenion Cymhleth, roedd y pwysau'n dal i gynyddu, oedran cyfartalog y boblogaeth hŷn oedd yn gofyn am ofal preswyl bellach oedd 82 – 83 oed. Roeddent yn defnyddio'r gwasanaethau hyn pan oedd teulu'n methu â darparu'r gefnogaeth angenrheidiol mwyach, felly roedd ganddynt fwy o anghenion pan oeddent yn gofyn am ofal y tro cyntaf. Ers y pandemig, roedd cynnydd wedi bod mewn iechyd meddwl cymhleth ac iechyd meddwl ymddygiadol mewn Gwasanaethau Plant. Roedd llawer o waith ar y gweill gyda phartneriaid, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc, Gwasanaeth Teuluoedd Integredig Lleol, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, yr Heddlu ac ati, yn canolbwyntio ar ymyrraeth gynnar a chefnogi teuluoedd yn gynt. Cynhaliwyd cyfarfodydd Tîm Amlasiantaeth rheolaidd gydag ysgolion, defnyddiwyd y dull Tîm o Amgylch y Teulu a rhannwyd llawer o wybodaeth a data i gefnogi cydweithio effeithiol.
- Bu dirywiad yn y perfformiad oherwydd cymhlethdodau'r anghenion oedd gan unigolion, oedd yn golygu bod asesiadau'n cymryd mwy o amser, fodd bynnag, roedd ar y gwasanaeth eisiau i asesiadau o ansawdd gael eu cynnal, felly roeddent yn cymryd mwy o amser. Roedd recriwtio a chadw yn

ffactor arall oedd yn cyfrannu at y dirywiad mewn perfformiad, ynghyd â system newydd o gofnodi data, oedd yn golygu ei bod yn anodd cymharu o un flwyddyn i'r llall.

- Dangosodd yr adroddiad mai dim ond chwe chwyn a gafwyd yn erbyn y Gwasanaeth, oedd yn ymddangos yn nifer isel iawn. Roedd y drefn gwyno yn broses statudol a ddiffiniwyd gan Lywodraeth Cymru. Roedd gan Adran Gwynion Cyngor Sir Ddinbych enw da iawn ac roedd nifer o awdurdodau eraill wedi gofyn iddynt am gyngor i ymdrin â chwynion yn effeithiol. Roedd cyfradd ymateb yr adran i gwynion yn effeithlon iawn.
- Roedd digartrefedd yn rhan o gylch gwaith y Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Digartrefedd (AL), fodd bynnag, nid oedd angen cynnwys gwybodaeth am ddigartrefedd yn Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol. Yn yr adran ar gyllid, nodwyd er gwybodaeth bod £4 miliwn o gyllideb £59 miliwn y Gwasanaethau Oedolion ar gyfer darparu gwasanaethau digartrefedd, ariannwyd gweddill y Gwasanaethau Digartrefedd drwy arian grant. Roedd pobl ifanc digartref rhwng 16-17 oed yn rhan o Gyllideb y Gwasanaethau Plant felly nid oeddent yn cael eu cynnwys yn y ffigwr hwn.
- Roedd pontio o Wasanaethau Plant i Wasanaethau Oedolion i gyd yn seiliedig ar gynllunio ymlaen llaw ac ymyrraeth gynnar. Ar gyfer plant ag anableddau, roedd gan Gyngor Sir Ddinbych broses ragorol o gynllunio ymlaen llaw. Fodd bynnag, ar gyfer Plant â phroblemau Iechyd Meddwl oedd yn symud i wasanaethau Iechyd Meddwl Oedolion, roedd yr adran yn profi pwysau. Roedd y rhai oedd yn gadael gofal, ac oedd yn dal mewn addysg yn aros gyda'r gwasanaeth nes eu bod yn 21 i 25 oed. Roedd gwaith pontio pwrpasol, gweithio gyda digartrefedd, symud ymlaen i dai ac roedd yr hyn oedd ar gael yn gallu bod yn anodd, felly roedd y Gwasanaeth yn edrych ar hyn o bryd ar ffyrdd o ddatblygu cefnogaeth yn y cartref. Ar gyfer pobl ifanc 18 oed mewn gofal preswyl, roedd pontio i lawr i lety â chymorth. Ar gyfer gofal preswyl a maethu, roedd rhaglen o'r enw "pan fyddaf yn barod", oedd yn golygu nad oedd raid iddynt adael dim ond oherwydd eu bod yn 18 oed. Roedd llawer o gynllunio llwybrau, rheoli arian a sgiliau cyllideb yn agweddau allweddol i'r grŵp oedran hwn.
- Y rhaglen Nid er Elw - roedd Pennaeth Gwasanaethau Plant Sir Ddinbych yn Gadeirydd bwrdd Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan ar gyfer y rhaglen benodol hon. Roedd llawer o gwestiynau heb eu hateb am y Bil hwn a gofynnwyd nifer o gwestiynau i Lywodraeth Cymru amdano. Er bod bwriad y rhaglen 'Nid er Elw' yn glodwiw, mewn gwirionedd, byddai'n anodd iawn, ac nid oedd yn glir byth ble byddai eithriadau.
- Roedd micro ddarparwyr wedi llenwi llawer o fylchau mewn darpariaeth gofal yn y cartref yn y sir, fe'i hystyrid yn gynnig gwerthfawr gan Gyngor Sir Ddinbych gan fod y gwasanaeth a ddarparwyd ganddynt yn golygu nad oedd ar bobl angen gwasanaethau statudol, drwy eu helpu i gadw eu hannibyniaeth. Gallai pob micro ddarparwr ddarparu cefnogaeth a gofal i hyd at bedwar o bobl. Roedd micro ddarparwyr yn darparu gofal a chefnogaeth i tua 200 o breswylwyr i gyd, roedd rhai yn ei ariannu eu hunain. Roedd Sir Ddinbych yn recriwtio, hyfforddi a chefnogi micro ddarparwyr, fodd bynnag, endidau preifat, unigolion hunangyflogedig oeddent yn y bôn.
- Ariennir y Tîm Adsefydlu Byd-eang gan y Swyddfa Gartref drwy gyllid ar gyfer Rhaglenni Adsefydlu penodol i ddinasyddion o Affganistan, Syria a

Wcráin. Roedd cefnogaeth ariannol i ddinasyddion Wcráin yn prinhau, ond roedd llawer o deuluoedd o Wcráin yn dal i fyw gyda theuluoedd ar hyd a lled y sir ac roeddent yn dal i gael cyllid gan y Swyddfa Gartref. Roedd Canolbwynt Croeso Wcráin wedi cau erbyn hyn, ac roedd y teuluoedd i gyd yn byw mewn cartrefi mwy parhaol. Roedd ychydig o deuluoedd o Affganistan a Syria yn dod i Sir Ddinbych bob blwyddyn, ond roedd y niferoedd yn fach iawn. O ran Ceiswyr Lloches, yn 2023/24 cafodd pob awdurdod lleol ddyraniad o dai y gellir eu defnyddio i letya ceiswyr lloches. Daeth y darparwr dros y Swyddfa Gartref at y Cyngor gydag eiddo roeddent yn eu cynnig y dylid eu defnyddio ar gyfer hyn a sut y byddent yn cael eu gwella i gyrraedd y safon. Roedd y cyllid ar eu cyfer yn swm untro fesul gwely. Ar hyn o bryd, roedd tri neu bedwar teulu wedi'u lletya yn Sir Ddinbych ac roedd y Tîm Adsefydlu Byd-eang yn gweithio'n agos gyda Heddlu Gogledd Cymru ac Adran Gwarchod y Cyhoedd Sir Ddinbych o ran Ceiswyr Lloches. Ni ddefnyddir unrhyw gyllid gofal ar gyfer y rhaglenni adsefydlu.

- Yn y dyfodol agos, bydd y sefyllfa'n heriol, nid oedd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn ddiogel rhag gorfod gwneud arbedion sylweddol yn y gyllideb, byddai perfformiad yn dirywio mewn rhai meysydd, mae'n debyg y byddai angen i'r cynnig cymorth fod yn llai, fodd bynnag, gwneir pob ymdrech i gynnal y gwasanaeth i'r rhai mwyaf diamddiffyn.

Ar ddiwedd trafodaeth fanwl, diolchodd y Pwyllgor i'r Cyfarwyddwr am adroddiad cynhwysfawr oedd yn rhoi cyfrif didwyll o berfformiad y Gwasanaeth ynghyd â'r pwysau oedd arno i ddarparu gwasanaethau o ansawdd i breswylwyr y Sir ar adeg o gynni ariannol.

Felly:
**Penderfynodd y Pwyllgor: yn amodol ar y sylwadau uchod –**
**(i) dderbyn yr adroddiad a'i gymeradwyo fel cyfrif clir o berfformiad Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol y Cyngor yn 2023/24; a**
**(ii) chydnabod y pwysau ariannol ac ar adnoddau yr oedd disgwyl i Wasanaethau weithio ynddynt ar hyn o bryd.**

Gohiriwyd y Pwyllgor am egwyl am 11.20am ac ailymgynnull am 11.30am

## 6 ADRODDIAD DIWEDD BLWYDDYN CEFNDY 2023/24

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Arweiniol - y Cynghorydd Elen Heaton yr adroddiad (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) a'r rhai oedd yn bresennol ar gyfer yr eitem hon, sef y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau, Moderneiddio a Lles (NS), Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Digartrefedd (AL) a'r Rheolwr Gwasanaeth - Gwasanaeth Cefnogaeth Gymunedol Cefndy (NB).

Trefnodd Cefndy ymweliad safle ar gyfer y pwyllgor hwn y llynedd, oedd wedi mynd yn dda, felly roedd mwyafrif yr aelodau'n deall beth oedd Cefndy yn ei gynnig. Felly, agorodd y Cadeirydd y drafodaeth ar gyfer cwestiynau.

Gan ymateb i'r cwestiynau a'r pwyntiau a godwyd dywedodd yr Aelod Arweiniol a'r swyddogion:

- Er gwaetha'r hinsawdd ariannol anodd, gwelwyd cynnydd mewn gwerthiant, mewn marchnad fyd-eang gystadleuol, ac roedd y gwerthiant ar y trywydd iawn ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.
- Roedd Cefndy wedi goresgyn heriau sylweddol megis tarfu ar y gadwyn gyflenwi, pwysau chwyddiant trwm, Brexit. Roedd y tîm rheoli bellach yn edrych ar gynnyrch newydd ac yn ystyried datblygu cynnyrch drwy weithio drwy hen ddyluniadau i ddechrau.
- O ran ôl troed carbon y fenter, nid oedd yn bosibl cael paneli solar ar yr adeilad oherwydd y coed, fodd bynnag, cafwyd goleuadau LED a chyflwynwyd wythnos waith pedwar diwrnod er mwyn lleihau biliau cyfleustodau, oedd wedi arbed 15%. Roedd gan yr holl offer newydd ôl troed carbon gwell.
- O ran hyfywedd hirdymor, roedd angen dechrau edrych ar ddatblygiad gyrfa yng Nghefndy. Roedd Sir Ddinbych yn ymwybodol o gynllunio olyniaeth, byddai'n cefnogi pobl i ddatblygu eu sgiliau ymhellach. Roedd y gwasanaethau a ddarparwyd yng Nghefndy yn unigryw, nid oeddent ar gael yn unman arall, felly roedd hyn yn achosi rhai heriau recriwtio. Roedd coleg peirianneg wedi agor wrth ymyl Cefndy, felly byddai profiad gwaith a chyfleoedd eraill yn cael eu cynnig drwy'r cyrsiau oedd ar gael yno gobeithio.
- Ar hyn o bryd, nid oedd cynlluniau i sefydlu Bwrdd Ymgynghorol, byddai hyn yn cael ei adolygu fel rhan o'r Rhaglen Drawsnewid, ac efallai ystyried cael Grŵp Tasg a Gorffen a allai gynnwys Cynghorwyr. Fodd bynnag, roedd Cefndy yn wasanaeth oedd yn cael ei gynnal gan y Cyngor, felly gallai Cynghorwyr gymryd cymaint o ran ag y dymunent gyda'r gwasanaeth.
- Byddai'r swyddogion yn fwy na pharod i drefnu ymweliad arall i Gynghorwyr i Gefndy (mewn grwpiau bychan).

Ar ddiwedd y drafodaeth, dywedodd aelodau'r Pwyllgor y byddai'n syniad da rhoi stori newyddion da yn Sir Ddinbych Heddiw ac ar gyfryngau cymdeithasol y Cyngor am Gefndy, beth oedd yn ei gynhyrchu, ei weithlu ymroddgar a'i fanteision i'r gymuned. Gofynnwyd hefyd am gael gweld cynlluniau busnes yn y dyfodol.

Yn dilyn trafodaeth fanwl:
**Penderfynwyd:**
**(i) yn amodol ar y sylwadau uchod, ac ar ôl dadansoddi perfformiad Cefndy o ran ei amcanion ariannol, busnes a lles cymdeithasol yn ystod 2023/24, derbyn yr adroddiad a chefnogi'r cynnydd a wnaed i sefydlogi'r fenter a chynllunio ar gyfer ei hyfywedd yn y dyfodol;**
**(ii) bod trefniadau'n cael eu gwneud i wahodd aelodau etholedig (mewn grwpiau hawdd eu rheoli) i ymweld â chyfleuster Cefndy i weld y gwaith sy'n cael ei wneud yno a sut mae o fudd i les ei weithlu; a**
**(iii) bod adroddiad arall ar berfformiad Cefndy yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25 yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor mewn 12 mis.**

## 7 RHAGLEN WAITH CRAFFU

Cyflwynodd y Cydlynydd Craffu'r adroddiad a'r atodiadau (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) er mwyn gofyn i'r Pwyllgor adolygu ei raglen waith.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor bod gohirio cyflwyno adroddiad cynnydd Ysgol Crist y Gair o raglen fusnes y cyfarfod hwn i gyfarfod mis Tachwedd wedi golygu bod gormod o eitemau i'w trafod ar raglen fusnes y cyfarfod hwnnw i roi digon o amser i bob pwnc.

Gan fod rhai o'r eitemau a restrwyd ar gyfer cyfarfod mis Tachwedd angen eu trafod ar frys, awgrymodd yr aelodau y dylid cynnal sesiwn fore a phrynhawn, neu ddau gyfarfod ar wahân, i drafod y busnes angenrheidiol. Fodd bynnag, dywedodd y swyddogion y byddai pwysau ar amserlen cyfarfodydd pwyllgorau'r Cyngor ac adnoddau staffio i gefnogi sesiynau/cyfarfodydd ychwanegol yn ei gwneud yn anodd iawn i drefnu a chefnogi cynnal dau gyfarfod/dwy sesiwn yn yr un mis.

Awgrymwyd felly y dylid holi Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Cymunedau i weld a allai'r pwyllgor hwnnw gymryd y gwaith o fonitro Cynllun Gweithredu Strategaeth Tai a Digartrefedd y Cyngor, gan fod yr aelodau'n teimlo bod y Strategaeth yn cyd-fynd yn well â chylch gwaith y Pwyllgor Craffu Cymunedau na'r Pwyllgor Craffu Perfformiad. Os bydd y Pwyllgor Craffu Cymunedau yn cytuno i wneud hyn, byddai'n golygu bod llwyth gwaith y Pwyllgor Craffu Perfformiad yn haws ei reoli ar gyfer gweddill y flwyddyn galendr. Cytunodd y Cydlynydd Craffu i holi ar ran y Pwyllgor.

Dywedwyd wrth yr aelodau y bydd cyfarfod nesaf y Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Craffu ar 16 Medi ac felly dylid cyflwyno unrhyw geisiadau am archwilio eitemau i'r Cydlynydd Craffu ar y ffurflen sydd ynghlwm yn Atodiad 2 yr adroddiad mewn da bryd cyn y cyfarfod hwnnw. Roedd Atodiad 3 yn cynnwys Rhaglen Waith y Cabinet er gwybodaeth i aelodau ac roedd Atodiad 4 yn rhoi trosolwg o'r cynnydd a wnaed hyd yma ar argymhellion y Pwyllgor o'i gyfarfod blaenorol.

Felly:
**Penderfynwyd: yn amodol ar y sylwadau uchod -**
**(i) er mwyn lliniaru'r pwysau ar amser a Rhaglen Waith y Pwyllgor, cyflwyno cais i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau i ystyried yr adroddiad cynnydd ar Gynllun Gweithredu Strategaeth Tai Digartrefedd Sir Ddinbych; a**
**(ii) chadarnhau rhaglen waith y Pwyllgor fel y nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad.**

## 8 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGOR

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.05pm.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | **Pwyllgor Craffu Perfformiad** |
| **Dyddiad y cyfarfod** | **26 Medi 2024** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol** | **Diane King (Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Phobl Ifanc), Geraint Davies (Pennaeth Addysg)** |
| **Awduron yr adroddiad** | **Ruth Thackray a Joseph Earl** |
| **Teitl** | **Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Drawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) Medi 2024** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad yn darparu diweddariad pellach ar y cynnydd a wnaed i sicrhau bod yr Awdurdod Lleol ac ysgolion yn bodloni eu gofynion statudol o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Darparu gwybodaeth am y camau a gymerwyd i sicrhau bod yr Awdurdod Lleol ac ysgolion yn bodloni eu gofynion statudol o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a ddechreuodd ym mis Medi 2021 ac sydd ar waith tan 2025. (Yn dilyn cyhoeddiad gan y Gweinidog ynglŷn ag amserlenni gweithredu.)

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Estynnir gwahoddiad i aelodau Craffu i drafod manylion yr adroddiad hwn ac i nodi unrhyw agwedd ar y gwaith trawsnewid a allai elwa o archwiliad manwl yn y dyfodol.

# 4. Manylion yr adroddiad

## Cyd-destun

4.1. Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn disodli Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (2002). Cefnogir y Ddeddf gan reoliadau a Chod ADY. Mae’r Ddeddf yn disodli’r termau ‘anghenion addysgol arbennig’ (AAA) ac ‘anawsterau a/neu anableddau dysgu’ (AAD) gyda’r term newydd ‘anghenion dysgu ychwanegol’ (ADY). Bydd hyn yn disodli cynlluniau blaenorol, megis Cynlluniau Addysg Unigol (CAU), Datganiadau AAA a Chynlluniau Dysgu a Sgiliau.

## Cynnydd

4.2. **Effeithiolrwydd y cyllid a ddarperir i ysgolion i fodloni gofynion y Ddeddf** - mae cyllid cynhwysiant ysgolion (gan gynnwys ADY) yn cael ei ddirprwyo’n llawn i ysgolion fel y cytunwyd yn y Fforwm Cyllideb Ysgolion, yn seiliedig ar gyfartaledd treigl 3 blynedd yn dilyn cymedroli Mapiau Darpariaeth gan ysgolion. Mae hyn yn caniatáu i ysgolion gynllunio’n fwy effeithiol a bod yn ymatebol i ddysgwyr sydd angen cefnogaeth. Yn dilyn ymgynghori gydag ysgolion, mae’r ALl wedi ymrwymo i adolygu’r dulliau ar gyfer dyrannu cyllid Cynhwysiant (gan gynnwys ADY) oherwydd y llwyth gwaith o ganlyniad i gwblhau a chymedroli Mapiau Darpariaeth. Bydd grŵp Tasg a Gorffen yn cael ei sefydlu yn ystod tymor yr Hydref 2024 i ystyried a chynnig dulliau cyllido i’r Fforwm Cyllideb Ysgolion.

**Cynnydd a wnaed wrth recriwtio a chefnogi Seicolegwyr Addysg –** Yn genedlaethol, deallir y bydd cynnydd yn y llwyth gwaith drwy gyflwyno, gweithredu a sefydlu diwygiadau ADY. Mae Sir Ddinbych yn cyflogi 4 Seicolegydd Addysg llawn amser yn bresennol, sy’n is na’r gymhareb a argymhellir yn genedlaethol. Mae’r ALl yn yr ail flwyddyn o noddi aelod o staff trwy gwrs tair blynedd, a fydd yn golygu Seicolegydd Addysg ychwanegol sy’n siarad Cymraeg o Fedi 2026. Mae peidio â chael digon o staff sy’n siarad Cymraeg yn risg i ddyletswyddau a diwygiadau deddfwriaethol allweddol yr Awdurdod. Mae pryder o ran niferoedd recriwtio Seicolegwyr Addysg ledled Cymru; mae Sir Ddinbych wedi ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i rannu eu pryderon ynglŷn â diffyg cyfleoedd hyfforddiant.

**4.3. Adborth ymarferwyr yn yr ysgol ar yr adnoddau a chefnogaeth a ddarparwyd i ysgolion gyda'r bwriad o fodloni gofynion ychwanegol y Ddeddf -**

**Paratoi at yr Ysgol a Hyfforddiant** - Mae'r ALl yn parhau i ddarparu cefnogaeth ac arweiniad i ysgolion ble fo angen, trwy gyfarfodydd Cydlynydd ADY (CADY), cyfarfodydd clwstwr CADY a llwyfannau ar-lein megis Sharepoint. Rhoddir cefnogaeth bwrpasol ble gofynnwyd am hynny, neu lle bo'n briodol. Mae perthnasoedd gweithio cryf gyda'r ysgolion arbennig a'r Uned Cyfeirio Disgyblion (UCD) yn galluogi'r ALl i ymateb yn dda i'r anghenion cynyddol gan ysgolion ac i rannu arbenigedd. Mae'r ALl hefyd yn cydweithio'n effeithiol gydag Awdurdodau Lleol ar draws y rhanbarth i rannu ymarfer gorau.

**Grŵp Tasg a Gorffen Cwricwlwm** - Mae'r ALl wedi bod yn gweithio ar brosiect penodol a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru i edrych ar sut y gellir alinio Cwricwlwm i Gymru a Chod ADY Cymru ymhellach i fodloni anghenion dysgwyr. Mae cynrychiolwyr o ysgolion ac ar draws timau ALl wedi cwrdd ac o ganlyniad, mae dealltwriaeth gyffredin o sut mae ysgolion yn dylunio cwricwlwm lleol cynhwysol i gefnogi holl ddysgwyr yn datblygu.

**Arian Grant** - mae arian grant gan Lywodraeth Cymru yn parhau i gael ei ddirprwyo i ysgolion a gan yr ALl, yn unol â thelerau ac amodau, i gefnogi gweithredu Deddf ADY a Thribiwnlys Addysg (ADYTA) (2018).

**4.4. Materion recriwtio a chadw staff yn ymwneud â gweithredu gofynion y Ddeddf** - Mae'r ALl yn parhau i ddefnyddio arian grant gan Lywodraeth Cymru i gyllido Athrawon Ymgynghorol ADY ychwanegol i gefnogi'r dyletswyddau statudol o dan y Ddeddf. Er bod arian grant ar gael i gefnogi ysgolion i'w gweithredu, mae cydnabyddiaeth hefyd bod pwysau sylweddol yn parhau i fod ar y gweithlu ysgol, yn arbennig CADY.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1 Mae'r maes gwaith hwn yn cyfrannu at wneud sir Ddinbych yn lle iachach a hapusach lle mae pobl ifanc eisiau byw a gweithio a chyda'r sgiliau i wneud hynny. Mae hefyd yn cyfrannu at wneud Sir Ddinbych yn rhywle y gall pobl ifanc ddysgu a datblygu mewn amgylchedd teg a diogel, a chael y cychwyn gorau mewn bywyd ni waeth pa anghenion dysgu ychwanegol sydd ganddynt.

## 5. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

5.1. Mae TGCh CSDd yn cefnogi Gwasanaethau Addysg ac ysgolion gyda system TG Eclipse. Byddwn yn parhau i ddefnyddio cyllid grant Cynllun Datblygu Unigol Ar-lein Llywodraeth Cymru i gynorthwyo gyda chostau parhaus cynnal y system TG.

5.2. Mae'r ALl yn parhau i ddefnyddio grantiau Llywodraeth Cymru yn effeithiol i gefnogi'r ALl ac ysgolion i weithredu diwygiadau ADY. Yn flaenorol mae Llywodraeth Cymru wedi cynyddu'r cyllid a neilltuwyd ar gyfer gweithredu ADY o £6.6 miliwn i £12 miliwn, ac mae amserlenni'r gweithredu wedi eu hymestyn at ddiwedd blwyddyn academaidd 2024-25. Cydnabyddiaeth yw hyn o'r cynnydd yn y galw ar y gweithlu i ymateb i anghenion plant a symud plant o AAA i ADY, ochr yn ochr â sefydlu arferion addysg gynhwysol yn yr ysgol. Bydd y lefel hon o gyllid hefyd ar gael yn 2024-25. Fodd bynnag, mae cyllid grant ADY canolog yr ALl wedi aros yr un fath.

Mae dau athro Ymgynghorol ADY dros dro mewn swydd tan Awst 2025 i gefnogi gweithredu'r Cod ADY a Deddf ADYTA (2018) ar draws yr ALl. Mae trafodaethau staffio yn parhau i gefnogi'r gwaith gweithredu.

5.3 Mae ystyriaeth o gapasiti Seicoleg Addysgol wedi ei nodi yn adran 4.

## 6 Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Bydd angen Asesiad o Effaith ar Les fel arfer ar gyfer penderfyniadau neu gynigion am newid er mwyn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Safonau'r Gymraeg.  Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud asesiad effaith yn ymwneud â siwrnai Trawsnewid ADY.

## 7 Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1 Mae trafodaethau (ble'n berthnasol) gydag undebau llafur a phenaethiaid yn parhau i ddarparu fforymau ar gyfer trafodaeth onest. Rydym yn gweithio gydag ystod o fudd-ddeiliaid, gan gynnwys grwpiau rhieni, Iechyd, sefydliadau Addysg Bellach i rannu a chael sylwadau ar weithrediad parhaus y diwygiadau ADY.

## 9 Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Bydd angen talu'r holl gostau o gyllidebau sydd eisoes wedi'u dirprwyo i ysgolion, y gyllideb Addysg a hefyd cyllid grant a geir gan Lywodraeth Cymru.

## 10 Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Adroddwyd yn flaenorol am bwysau yn y tîm Seicoleg Addysg a thimau Anghenion Dysgu Ychwanegol, a lliniarwyd y risgiau fel y nodir yn adran 4 a 6.

10.2 Pwysau yn y tîm ADY oherwydd yr addasiadau sydd eu hangen a nifer o achosion yn parhau i fod yn risg fodd bynnag mae recriwtio aelodau o staff dros dro ychwanegol wedi helpu.

10.3 Mae trefniadau ariannu'n cael eu trafod ar hyn o bryd ar lefel genedlaethol mewn perthynas â'r Sefydliadau Ôl-16 Arbennig Annibynnol (ISPI). Pe bai'r cynnig cyntaf wedi ei dderbyn, byddai effaith ariannol negyddol ar Sir Ddinbych. Yn dilyn codi pryderon ac adroddiad a ysgrifennwyd ac a gyflwynwyd gan awdurdodau lleol rhanbarth Gogledd Cymru, mae Llywodraeth Cymru bellach wedi cytuno i adolygu'r prosesau eto. Rydym yn disgwyl am benderfyniad LlC a byddwn yn cymryd rhan mewn unrhyw drafodaethau pellach.

10.4 Mae dehongliad cyson o'r Ddeddf ADYTA (2018) a Chod ADY Cymru yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r holl fudd-ddeiliaid. Mae Sir Ddinbych wedi ymgysylltu'n rhanbarthol ac yn genedlaethol i gael eglurhad pellach yn y maes hwn trwy gyfarfodydd gyda Llywodraeth Cymru. Mae'r ALl hefyd wedi cwrdd ag arolygwyr Estyn i drafod ADY ac i gyfrannu at yr adroddiad thematig sydd i'w gyhoeddi'n ddiweddarach eleni.

10.5 Mae goblygiadau llwyth gwaith ar ysgolion yn parhau i fod yn ffactor oherwydd y cyfrifoldebau ychwanegol ar ysgolion o dan y Ddeddf a'r gweinyddu cysylltiedig. Mae'r ALl yn cefnogi ysgolion gyda chanllawiau, hwyluso dulliau clwstwr a darparu hyfforddiant wedi ei deilwra ble fo angen.

## 11 Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1 Mae pwerau mewn perthynas â'r materion yn yr adroddiad hwn yn unol ag:

- Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000;
- Erthygl 7 o Gyfansoddiad y Cyngor

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | **Pwyllgor Craffu Perfformiad** |
| **Dyddiad y cyfarfod** | **26 Medi 2024** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol** | **Y Cynghorydd Diane King (Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Phobl Ifanc)** |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | **Geraint Davies (Pennaeth Addysg)** |
| **Awdur yr adroddiad** | **Wayne Wheatley, Gwaith Cymdeithasol Addysg** |
| **Teitl** | **Hyrwyddo Presenoldeb Ysgol ac Ymgysylltiad mewn Addysg** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad yn cyflwyno'r sefyllfa bresennol o ran presenoldeb ysgol ac ymgysylltiad mewn addysg a'r ymateb i ymdrin â materion pan fo pryder ar lefel disgybl unigol yn Sir Ddinbych.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Darparu gwybodaeth ac egluro'r mesurau i gefnogi disgyblion diamddiffyn i ailymgysylltu gyda'u haddysg a darparu dealltwriaeth o'r cyd-destun rhanbarthol a chenedlaethol wrth ymdrin â'r lefel gyfredol o bryder yn genedlaethol.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Gwahoddir y pwyllgor Craffu i drafod manylion yr adroddiad hwn ac i adnabod unrhyw faterion a godwyd sydd angen eglurhad neu archwilio pellach yn y dyfodol.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1 Roedd cyfraddau presenoldeb ysgolion ym mlwyddyn ysgol 2018/19 cyn y pandemig ar gyfer ysgolion cynradd yn 94.8% ac ysgolion uwchradd yn 93.7%.

4.2 Roedd cyfartaledd presenoldeb Cymru ar gyfer ysgolion cynradd / uwchradd ar gyfer blwyddyn academaidd Medi 2023 i Fehefin 2024 yn 90.6%. Mae hyn yn gynnydd o 89.2% dros yr un cyfnod yn 2022/23 ar draws Cymru. Yn Sir Ddinbych, roedd cyfanswm ysgolion cynradd / uwchradd gyda'i gilydd ar gyfer blwyddyn academaidd 2023 / 2024 yn 89.9 %, sy'n cyfateb i 0.7 % yn llai na chyfartaledd Cymru. Yn genedlaethol, bu i 10.3 % o ddisgyblion gyrraedd y trothwy absenoldeb cyson o 10% o sesiynau wedi'u methu ar gyfer y flwyddyn academaidd, sydd unwaith eto'n welliant o 12.9% dros yr un cyfnod yn 2022/23. Roedd ffigwr Sir Ddinbych yn 15.2% dros yr un cyfnod yn 2022/23.

4.3 Mae Lynne Neagle AS, Ysgrifennydd Cabinet Addysg, hefyd wedi cyhoeddi cynlluniau yn ddiweddar i ddod â Chymru yn unol â Lloegr ble mae absenoldeb cyson yn cael ei ddiffinio fel colli 10% o sesiynau hanner diwrnod (30 sesiwn) yn hytrach na'r gyfradd absenoldeb gyfredol o 20% o absenoldeb cyson sy'n gyfwerth â 60 sesiwn hanner diwrnod y flwyddyn.

4.4 Mae Sir Ddinbych wedi cael cyllid ychwanegol gan LlC trwy'r Grant Addysg Awdurdod Lleol i ymdrin a chefnogi addysg ac ysgolion. Rydym yn parhau i ddatblygu cysylltiadau cymunedol cydlynol ar draws yr awdurdod i ymdrin â'r duedd gyfredol hon a chanolbwyntio ar berthyn cymunedol a mynediad at wasanaethau. Mae hyn yn sicrhau fod plant yn defnyddio eu hawl i addysg llawn amser ond hefyd yn cael mynediad at wasanaethau sy'n ehangach na dim ond addysg yn unig. Fel rhan o hyn, rydym wedi datblygu strategaeth ymgysylltu â disgyblion sy'n defnyddio'r gwasanaethau sy'n cefnogi'r rhaglen hon ac yn gosod cyfeiriad strategol clir ar gyfer y gwasanaeth.

4.5 Gwella presenoldeb yn yr ysgol yw'r flaenoriaeth y cynutwyd arni ar gyfer y flwyddyn ysgol hon i bob tîm o fewn y Gwasanaethau Addysg, gan weithio gydag ysgolion i fonitro a chefnogi ymgysylltiad disgyblion. Mae'n ffurfio rhan o bolisi presenoldeb diwygiedig y sir sy'n gysylltiedig â chanllawiau Llywodraeth Cymru **Perthyn, Ymgysylltu a Chyfranogi** ac yn adlewyrchu'r themâu allweddol a'r disgwyliadau o ran camau gweithredu gan awdurdodau lleol. Mae'r polisi presenoldeb enghreifftiol newydd ar gyfer 2024/25 (**Atodiad 1**) a ddarperir i ysgolion gan Adran Addysg Sir Ddinbych yn sicrhau cydymffurfiaeth, rheolaeth effeithiol a chefnogaeth.

4.6 Mae gan y Gwasanaeth Lles Addysg gyfrifoldeb uniongyrchol dros bresenoldeb ysgol yn Sir Ddinbych. Yn defnyddio cyllid grant Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024/25,

mae'r gwasanaeth wedi cynyddu capasiti staff ac wedi penodi dau swyddog ymgysylltu â theuluoedd ac un swyddog presenoldeb. Mae'r aelodau staff hyn yn cefnogi ysgolion a theuluoedd ac yn darparu cyswllt rheolaidd a gwaith manwl i hyrwyddo presenoldeb, cefnogi ac, ar adegau, herio'r "rhiant" drwy ddyletswyddau statudol y gwasanaeth i ymgysylltu a chymryd rhan yn addysg eu plentyn. Caiff ethos a diwylliant drws agored ei hyrwyddo ar draws holl ysgolion y sir. At hynny, rhoddir pwyslais ar sicrhau bod y rhiant yn teimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi a'i groesawu i weithio gydag ysgolion, gyda chynigion amrywiol i gymryd rhan drwy weithgareddau, cyfarfodydd a sgyrsiau anffurfiol yn yr ysgol; a chynnig cyfle i gyfarfod a deall sut y gall y rhiant wneud gwahaniaeth. Mae cyllid grant Ysgolion Bro ychwanegol ar gyfer 2024/25 wedi galluogi'r Gwasanaeth Cwnsela Ysgolion a gweithiwr cyswllt teulu'r Blynyddoedd Cynnar i ffurfio rhan o'r gwasanaethau a gynigir i deuluoedd yn seiliedig ar atgyfeiriadau gan ysgolion yn ymwneud â phryderon presenoldeb. Bydd y gefnogaeth ychwanegol hon o gymorth pan mae iechyd meddwl, gorbryder cymdeithasol a mynediad cynnar at addysg yn ffactor sylweddol.

4.8 Mae Adran Addysg Sir Ddinbych yn gweithredu polisi amserlen lai newydd ar gyfer ysgolion. Mae'n mynd i'r afael â'r pryderon lleol a chenedlaethol o ran nifer y disgyblion ar ddyddiau ysgol byrrach am amryw o resymau yn cynnwys iechyd ac anghenion cymdeithasol, presenoldeb ac ymddygiadol ehangach. Mae'r polisi'n cynnig proses gyson ar gyfer olrhain a monitro disgyblion yn cynnwys pan mae'n rhaid i ysgolion hysbysu Adran Addysg Sir Ddinbych pan maent yn ystyried gweithredu amserlen lai ar gyfer disgybl. Mae archwiliad yn cael ei gynnal ar hyn o bryd i roi syniad clir o'r gwaith hwn wrth roi'r polisi newydd ar waith.

**Nid oes un ateb, un grŵp neu un gwasanaeth y gall ymdrin â'r mater hwn.**

4.10 Mae'r awdurdod lleol yn edrych ar y cwmpas mae diwygiadau diweddar yn y Cwricwlwm i Gymru, Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg 2018, a'r adnoddau a'r cysylltiadau o fewn gwasanaethau'r awdurdod yn gallu ei roi i bresenoldeb disgyblion o fewn ei gylch gwaith fel blaenoriaeth.

4.11 Mae cwmpas yr uchod yn ymdrin â nifer o faterion mae plant yn delio â nhw yn ddyddiol: apathi, digalondid ac yn fwy pryderus, iechyd meddwl a lles sydd wedi cynyddu'n sylweddol ers 2018. Mae gan y rhan fwyaf os nad bob atgyfeiriad i'r Gwasanaeth Lles Addysg thema sy'n ailadrodd o'r materion uchod.

4.12 Yn bresennol mae perfformiad cyffredinol Sir Ddinbych yn 89.9%, y cyfartaledd ar draws Cymru o Fedi i Fehefin 2024 yw 90.6%. Mae dadansoddiad manylach o'n sefyllfa bresennol mewn perthynas ag absenoldebau awdurdodedig a heb awdurdod dros y tair blynedd academaidd olaf ar gael yn **Atodiad 2**.

4.13 Mae dull ysgol gyfan yn gyffredin ar draws ysgolion Sir Ddinbych ble gall yr holl staff beth bynnag fo'u swyddogaeth wneud gwahaniaeth i blentyn mewn ysgol sy'n gosod y plentyn yn ganolog i'r holl waith sydd â diddordeb cyffredin o ddysgu, gofal a lles. Mae gan ysgolion dimau bugeiliol a staff cefnogi yn gweithio gyda disgyblion i wella canlyniadau dysgu ond hefyd deall gofal ein dysgwyr diamddiffyn sydd â phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod, materion teuluol cymhleth, tlodi, anfantais a nifer cynyddol o broblemau iechyd meddwl, gorbryder ac ymddieithrio.

4.14 Mae cyfres o ganllawiau wedi eu creu i gefnogi ysgolion a theuluoedd i ddeall y disgwyliadau o ran presenoldeb da a hefyd i roi eglurder trwy gyfres o gwestiynau cyffredin.

4.15 Defnyddir rhybuddion cosb benodedig fel mesur pan fo pob ymdrech arall gan yr ysgol i ymgysylltu â rhiant wedi methu, mae hyn yn unol â'r canllawiau presennol gan Llywodraeth Cymru.

| **Rhybuddion Cosb Benodedig** | **Blwyddyn Ysgol** | **Rhybudd a gyflwynwyd** | **Dirwyon a Gyflwynwyd** |
|---|---|---|---|
| | 2021 /2022 | 42 | 7 |
| | 2022/2023 | 234 | 22 |
| Blwyddyn Ysgol Gyfredol | 2023/2024 | 483 | 76 |

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1 Mae'r maes gwaith hwn yn cyfrannu at wneud sir Ddinbych yn lle ble mae pobl ifanc eisiau byw a gweithio a chyda'r sgiliau i wneud hynny. Mae hefyd yn cyfrannu at wneud Sir Ddinbych yn rywle y gall pobl ifanc ffynnu a chael y cychwyn gorau mewn bywyd beth bynnag fo'r problemau neu heriau maent yn eu hwynebu.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Mae'r awdurdod lleol yn cael eu cefnogi gan grantiau allanol i ymdrin â'r lefel gyfredol o bryder yn genedlaethol ac yn lleol ynglŷn ag effaith presenoldeb gwael a'r cynnydd i adennill a rhagori ar y lefelau a gyrhaeddwyd yn 2018/19. Pe byddai'r arian yn gostwng yn y setliad gan Llywodraeth Cymru yn y dyfodol byddai angen cynnal adolygiad i edrych ar gyfeiriad strategol y sir yn ymwneud â buddsoddiad yn y dyfodol i gefnogi'r maes blaenoriaeth uchel hwn. Mae Sir Ddinbych yn deall bod Llywodraeth Cymru, ar hyn o bryd, yn canolbwyntio ar hyrwyddo ymgysylltiad pob dysgwr.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1 Nid oes angen gwneud penderfyniad na chynnig ar gyfer newid ac felly nid oes angen Asesiad o Effaith ar Les.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Mae trafodaethau yn parhau gyda phenaethiaid i lywio newidiadau polisi a chefnogaeth. Trafodwyd y maes hwn yng nghyfarfod Craffu Perfformiad ym mis Ionawr 2024.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Fel y nodir yn adran 6 yr adroddiad.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

| Adran 444 | Trosedd: Methu â sicrhau presenoldeb rheolaidd yn ysgol y disgybl cofrestredig; |
| Adran 444A | Rhybudd cosb mewn perthynas â methiant i sicrhau presenoldeb rheolaidd yn ysgol y disgybl cofrestredig; |
| Adran 444B | Rhybuddion cosb: atodol; |
| Adran 444ZA | Cais adran 444 am ddarpariaeth addysgol amgen |
| Adran 576 | Ystyr "rhiant" |


**Deddf Addysg ac Arolygon 2006**


| | |
|---|---|
| Adran 103 | Dyletswydd rhiant mewn perthynas â disgybl wedi'i wahardd. |


Mae tudalen hwn yn fwriadol wag


# Appendix 2



Primary 2022-23 - volume of authorised absence, by code
Family Holiday (agreed), 4%
Extended family holiday (agreed), 0%
Excluded, 0%
Illness, 82%
Other Authorised Circumstances
Excluded
Extended family holiday (agreed)
Family Holiday (agreed)
Illness
Medical/Dental appointments
Religious observance
Study leave
Traveller absence



Primary 2022-23 - volume of unauthorised absence, by code
Late (after registers closed) 8%
Family holiday (not agreed or days in excess) 39%
Unauthorised Abs (not covered by other code) 53%
No reason provided for absence yet 0%
Family holiday (not agreed or days in excess)
No reason provided for absence yet
Unauthorised Abs (not covered by other code)
Late (after registers closed)



Secondary 2022-23 - volume of authorised absence, by code
Religious observance 0%
Study leave 1%
Traveller absence 0%
Medical/Dental appointments 7%
Other Authorised Circumstances 15%
Excluded 4%
Extended family holiday (agreed) 0%
Family Holiday (agreed) 1%
Illness 72%
Other Authorised Circumstances
Excluded
Extended family holiday (agreed)
Family Holiday (agreed)
Illness
Medical/Dental appointments
Religious observance
Study leave
Traveller absence


Secondary 2022-23 - volume of authorised absence, by code
Late (after registers closed) 10%
Family holiday (not agreed or days in excess) 10%
No reason provided for absence yet 1%
Unauthorised Abs (not covered by other code) 79%
Family holiday (not agreed or days in excess)
No reason provided for absence yet
Unauthorised Abs (not covered by other code)
Late (after registers closed)


Primary 2018-19 - volume of authorised absence, by code
Religious observance 1%
Study leave 0%
Traveller absence 0%
Medical/Dental appointments 9%
Other Authorised Circumstances 8%
Excluded 0%
Extended family holiday (agreed) 0%
Family Holiday (agreed) 5%
Illness 77%
Other Authorised Circumstances
Excluded
Extended family holiday (agreed)
Family Holiday (agreed)
Illness
Medical/Dental appointments
Religious observance
Study leave
Traveller absence


Primary 2018-19 - volume of unauthorised absence, by code
Late (after registers closed) 5%
Unauthorised Abs (not covered by other code) 34%
Family holiday (not agreed or days in excess) 60%
No reason provided for absence yet 1%
Family holiday (not agreed or days in excess)
No reason provided for absence yet
Unauthorised Abs (not covered by other code)
Late (after registers closed)


Secondary 2018-19 - volume of authorised absence, by code
Religious observance 0%
Study leave 0%
Traveller absence 0%
Medical/Dental appointments 9%
Other Authorised Circumstances 9%
Excluded 4%
Extended family holiday (agreed) 0%
Family Holiday (agreed) 2%
Illness 76%
Other Authorised Circumstances
Excluded
Extended family holiday (agreed)
Family Holiday (agreed)
Illness
Medical/Dental appointments
Religious observance
Study leave
Traveller absence


Secondary 2018-19 - volume of authorised absence, by code
Late (after registers closed) 6%
Family holiday (not agreed or days in excess) 21%
No reason provided for absence yet 2%
Unauthorised Abs (not covered by other code) 71%
Family holiday (not agreed or days in excess)
No reason provided for absence yet
Unauthorised Abs (not covered by other code)
Late (after registers closed)

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | **Pwyllgor Craffu Perfformiad** |
| **Dyddiad y cyfarfod** | **26 Medi 2024** |
| **Aelod Arweiniol / Swyddog** | **Y Cynghorydd Diane King, Aelod Arweiniol Plant a Phobl Ifanc / y Cynghorydd Emrys Wynne, Aelod Arweiniol y Gymraeg, Diwylliant a Threftadaeth** |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | **Geraint Davies, Pennaeth Addysg** |
| **Awdur yr adroddiad** | **Marc Lloyd Jones, Swyddog Datblygu Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg** |
| **Teitl** | **Trawsnewid y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Adroddiad ar y cynnydd a wnaed hyd yma o ran cyflawni'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn holl ysgolion y sir yn unol â gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer darpariaeth Gymraeg.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Fe wnaeth y Pwyllgor gais am yr adroddiad yn dilyn trafodaeth ym mis Medi 2023 ar adroddiad cynnydd mewn perthynas â darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Gwahoddir y Pwyllgor Craffu i drafod manylion yr adroddiad a nodi unrhyw faterion y gallai fod angen rhagor o ddiweddariadau arnynt i sicrhau bod y Cyngor yn gwneud cynnydd o ran camau gweithredu'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Mae gan y Cyngor weledigaeth ddeng mlynedd i gynyddu a gwella'r gwaith cynllunio o ran darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn ein hardal. Caiff hyn ei fynegi yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor. Erbyn Medi 2032 ein dyhead yw y bydd 40% o'r holl ddisgyblion saith mlwydd oed yn cael Addysg Cyfrwng Cymraeg.

4.2. Er mwyn cyflawni'r weledigaeth hon, mae'r Cynllun yn nodi saith canlyniad a fydd yn cyfrannu tuag at yr uchelgais. Mae angen i'r Cyngor gyflwyno adroddiad blynyddol i Lywodraeth Cymru ar y cynnydd o ran y Cynllun hwn ac mae crynodeb o'r cynnydd i'w weld yn Atodiad 1.

4.3. Mae'r prif gynnydd o ran y cynllun yn cynnwys gweledigaeth glir a chefnogaeth i ddatblygu prosiectau; mae Tîm Cefnogi'r Gymraeg yn darparu cefnogaeth ragorol ac arweiniad i staff ysgolion yn Sir Ddinbych; mae gwybodaeth yn amlygu manteision dwyieithrwydd ac addysg cyfrwng Cymraeg ar wefan CSDd; mae 6 ysgol cyfrwng Saesneg wedi newid eu categori iaith ac wedi dod yn ysgolion T2, sydd wedi ymrwymo (dros gyfnod o 10 mlynedd) i gynyddu faint o Gymraeg a ddysgir yn yr ysgol gydag uchelgais i ddysgu 50% o wersi drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r nifer o hwyrddyfodiaid i addysg cyfrwng Cymraeg a'r nifer sy'n derbyn cefnogaeth arbenigol yn cynyddu; mae cydweithio agos yn digwydd gyda Thîm Ymgynghorol y Gymraeg yng Nghyngor Sir Conwy er mwyn rhannu arfer da ac mae hyn yn datblygu'n dda.

4.4. Mae swyddogion wedi creu 'Sglein ar Lein' https://sites.google.com/hwbcymru.net/sgleinarlein/hafan, gwefan a ddarperir drwy Hwb sy'n cynnwys adnoddau dysgu ar gyfer holl staff yr ysgolion i ddatblygu sgiliau siarad Cymraeg a gwrando ac i annog y defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg. Mae hyn wedi ei rannu gyda'r holl ysgolion yn dilyn lansiad yng Nghynhadledd y Prifathrawon ym Mehefin 2024.

4.5. Mae fframwaith Cymraeg Campus ar gyfer ysgolion uwchradd Sir Ddinbych (cyfrwng Saesneg) wedi ei greu a'i groesawu, gan arwain at gynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg yn yr ysgolion hyn. Mae Llywodraeth Cymru wedi dangos diddordeb mawr yn y gwaith hwn.

4.6. Y prif fater sy’n peri pryder yw gostyngiad yng nghanran y dysgwyr a gafodd addysg trwy gyfrwng y Gymraeg ym mlwyddyn 2 yn ystod 2023-24. Yn ystod ac ar ôl y pandemig, fe fu gostyngiad sylweddol yn nifer y disgyblion yn nau o’n hysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg mwyaf. Roedd y gostyngiad hwn yn golygu bod y nifer o ddisgyblion a oedd yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg ym mlwyddyn 2 wedi gostwng o 28% yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ym Medi 2020 i 26.3% ym Medi 2023. Mae’r niferoedd yn y ddwy ysgol fodd bynnag yn dechrau dychwelyd i’r hyn oeddent cyn covid. Hefyd mae yna nifer cynyddol o blant sy’n mynychu lleoliadau cyn ysgol cyfrwng Cymraeg gyda bron i 100% yn trosglwyddo i ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg. Mae’r pwysau ariannol yn yr holl ysgolion yn golygu y gall darparu mwy o Gymraeg fod yn heriol. Hefyd mae yna brinder cenedlaethol o staff sy’n siarad Cymraeg ac yn arbenigo yn y Gymraeg fel pwnc yn ogystal â phrinder cenedlaethol o ddeunyddiau dysgu ac adnoddau Cymraeg. Mae swyddogion yn gweithio’n agos gydag ysgolion i sicrhau fod cefnogaeth effeithiol ar gael i fodloni’r heriau hyn ac i sicrhau nad yw’r Gymraeg yn cael ei heffeithio gan y ffactorau hyn.

## 5. Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Sir Ddinbych sy'n dysgu a thyfu – mae gweithredu’r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn cefnogi’r nod i hybu dysg a datblygiad ein plant a’n pobl ifanc a chefnogi ysgolion i gyflawni yn erbyn safonau newydd a chanllawiau cenedlaethol. Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Sir Ddinbych yn gosod targedau i gyflawni twf mewn addysg cyfrwng Cymraeg a gwella safonau addysgu yn y Gymraeg.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Ers y newid mewn trefniadau ariannu gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol hon, mae’r elfen Cymraeg 2050 o’r Grant Addysg Llywodraeth Leol yn £383,195. Caiff y cyllid ei rannu rhwng y gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol a thimau Cymraeg yr awdurdod lleol. Mae’r cyllid a gadwyd gan yr awdurdod wedi ei ddefnyddio i gynnal capasiti’r staff ymgynghori a throchi er mwyn galluogi’r cynllun i wneud cynnydd.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Gan mai adroddiad diweddaru i'r Pwyllgor Craffu yw hwn ni wnaed Asesiad o Effaith ar Les. Nododd yr Asesiad o Effaith a wnaed pan gymeradwywyd y Cynllun ym mis Ionawr 2022 fod gan y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg botensial i gael effaith gadarnhaol ar Sir Ddinbych â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, cymunedau cydlynol, Sir Ddinbych fwy cyfartal a Sir Ddinbych fwy ffyniannus.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Mae Cydlynydd y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn adrodd yn rheolaidd i Grŵp Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Ymysg aelodau'r Grŵp mae ystod o fudd-ddeiliaid gan gynnwys Cynghorwyr, y mae Sir Ddinbych yn gweithio gyda nhw i hyrwyddo datblygiad y Gymraeg. Caiff adroddiad blynyddol ei ysgrifennu hefyd a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru sy'n craffu arno ac yn dychwelyd unrhyw argymhellion neu awgrymiadau.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Mae'r Cyngor yn wynebu heriau ariannol sylweddol ar hyn o bryd a fydd yn effeithio ar y capasiti i ddarparu gwasanaethau a chyflawni prosiectau a blaenoriaethau corfforaethol. Wrth i'r cyngor weithio drwy'r effeithiau mae angen rhoi ystyriaeth i'r sefyllfa ariannol gyffredinol wrth drafod pob adroddiad yn y dyfodol.  Fodd bynnag croesawir y cyllid uniongyrchol ar gyfer y cynllun hwn a ddaw ar ffurf grant gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Mae cadw niferoedd uchel o ddisgyblion mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg trwy gydol eu cyfnod mewn addysg yn allweddol i gyflawni'r cynllun ynghyd ag ehangu'r ddarpariaeth, un ai trwy ail-ddynodi categori iaith ysgolion neu ddatblygu ysgolion cyfrwng Cymraeg newydd lle bo hynny'n briodol. Mae pwysau ariannol yn effeithio ar ddatblygiad proffesiynol mewn ysgolion ac ar eu gallu i symud ar hyd y continwwm ieithyddol a chynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg yn eu lleoliad. Fe all diffyg cyffredinol o adnoddau cyfrwng Cymraeg a staff sy'n siarad Cymraeg effeithio ar gynnydd.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Mae'r gofyniad i lunio Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn sicrhau cydymffurfiaeth â'r darpariaethau mewn perthynas â'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn Neddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ('y Ddeddf') a'r rheoliadau a wnaed o dan y Ddeddf.

11.2. Mae pwerau'r Pwyllgor Craffu mewn perthynas â'r mater uchod wedi'u nodi yn Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000 ac Adran 7 o Gyfansoddiad y Cyngor.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**Atodiad 1**

## Deilliant 1

**Mwy o blant meithrin/ tair oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg**

- Mae gwybodaeth am fanteision dwyieithrwydd ac addysg Gymraeg yn amlwg ar wefan y sir ac ar dudalen X Sir Ddinbych.
- Mae gwybodaeth am weithgareddau Cymraeg i blant cyn oed ysgol ar wefan y sir.
- Rydym wedi cydweithio gyda Menter Iaith Sir Ddinbych a RHAG i gynhyrchu cardiau post i'w rhannu yn y gymuned, fydd yn cynnwys codau QR yn cyfeirio rhieni a darpar rieni at wybodaeth a digwyddiadau am y Gymraeg ac addysg Gymraeg.
- Mae nifer y Cylchoedd Meithrin a nifer y plant sy'n mynychu'r cylchoedd yn cynnyddu.
- Mae canran y plant sy'n trosglwyddo o'r Cylch Meithrin i ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn cynnyddu.
- Mae nifer y lleoedd gofal plant Dechrau'n Deg cyfrwng Cymraeg yn cynnyddu.
- Erbyn hyn mae cylch meithrin ar dir pob ysgol / neu o fewn pellter cerdded agos i bob ysgol Gymraeg yn Sir Ddinbych oni bai am Ysgol Betws Gwerfyl Goch (Fodd bynnag mae Cylch Ti a Fi wedi ei sefydlu yma). Mae cylch Rhuthun wedi symud i adeilad sydd wedi ei addasu yn Rhuthun ac felly o fewn pellter cerdded i Ysgol Pen Barras. Mae Cylch Meithrin wedi ail agor yn Ysgol Bro Dyfrdwy.
- Mae'r awdurdod wedi defnyddio Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant i adnabod meysydd i'w datblygu.
- Cyflwynwyd cais am gyllid i Gronfa Cyfalaf Gofal Plant Lywodraeth Cymru ddiwedd mis Mawrth ar gyfer datblygiadau yn Ysgol y Llys a Ysgol Bro Elwern. Rydym yn aros am ymateb i'r cais hwn gan Lywodraeth Cymru.
- Mae datblygu safleoedd yn Rhuthun ac Ysgol Dewi Sant yn brosiectau tymor hir. Grantiau Cyfalaf Mudiad Meithrin
- Mae prosiectau ar y gweill i ddatblygu safleoedd ar dir Ysgol Twm o'r Nant, Ysgol y Llys, Ysgol Gwernant, Llangollen ac Ysgol Llanrhaeadr.

## Deilliant 2

**Mwy o blant dosbarth derbyn/ pump oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg**

• Mae nifer a chanran y dysgwyr yn y Dosbarth Derbyn sy'n cael eu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg wedi bod yn cynnyddu, ond mae effaith y pandemig yn arbennig ar y ddwy ysgol Gymraeg fwyaf yng ngogledd y sir wedi gweld y niferoedd yn gostwng yn 2023-24.
• Mae nifer a chanran y dysgwyr ym mlwyddyn 1 sy'n cael eu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg wedi cynnyddu 1.4% rhwng 2022-23 a 2023-24.
• Mae 8 ysgol cyfrwng Cymraeg unai yn llawn, neu bron yn llawn.
• Mae'r nifer uchaf o lefydd gweigion yn ein ysgolion mwyaf .e.e Glan Clwyd, Y Llys a Dewi Sant.
• Rhaid nodi fodd bynnag, nad yw'r data yn cynnwys dosbarthiadau meithrin ysgolion, sydd yn gwneud i'r llefydd gweigion ymddangs yn fwy.
• Mae CSDd, Menter Iaith Dinbych a RHAG wedi bod yn cydweithio, drwy gynnal digwyddiadau a chreu platfformau digidol i annog rhieni ar y glannau i yrru eu plant i ysgolion cyfrwng Cymraeg.
• Mae niferoedd y dysgwyr wedi cofrestru i ddechrau yn ysgol Y Llys a Dewi Sant ym Medi 2024 yn sylweddol uwch na 2022 a 2023.
• Mae niferoedd y disgyblion mewn dwy o'n hysgolion lleiaf yn pery pryder i ni.
• Mae prosiectau adeiladu mewn tair ysgol (Ysgol Bro Elwern, Ysgol Bro Cinmeirch ac Ysgol Henllan) yn datblygu.
• Mae gwaith cynllunio yn mynd rhagddi i adeiladu estyniad i Ysgol Gwernant.
• Mae 6 ysgol gynradd cyfrwng Saesneg wedi nodi eu bod yn ysgolion categori T2. Gyda chefnogaeth swyddogion yr awdurdod, bydd y ddarpariaeth Gymraeg yn cynnyddu yn yr ysgolion hyn dros gyfnod o amser.
• Mae swyddogion yr awdurdod yn gweithio'n agos gyda'r 6 ysgol T6 i fapio eu taith ieithyddol a chreu cynlluniau gweithredu manwl i gynnyddu'r defnydd o'r Gymraeg.
• Mae model Sir Ddinbych o gefnogi hwyrddyfodiaid yn esblygu ac yn datblygu'n dda. Mae dwy aelod o staff yn rhoi cefnogaeth allgymorth i'r hwyrddyfodiaid ac mae niferoedd yn codi pob tymor.

### Deilliant 3

**Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall**

- Mae unig ysgol gynradd categori 1 a 3 yn y sir wedi nodi na fydd dysgwyr o'r dosbarth Meithrin a Derbyn eleni, yn cael yr opsiwn o ddewis Saesneg fel cyfrwng eu haddysg nes y byddant ym mlwyddyn 3. Rydym mewn trafodaethau cyson i geisio newid yr ysgol yn ysgol Gymraeg, categori 3.
- Mae 93% o ddysgwyr blwyddyn 6 ysgolion cyfrwng Cymraeg Sir Ddinbych yn mynd i ysgol/ffrwd Gymraeg yn yr uwchradd.
- Mae swyddogion y sir, penaethiaid yr ysgolion cynradd ac uwchradd yn cyfarfod i lunio strategaethau a gweithdrefnau clir i annog dysgwyr i barhau ag addysg Gymraeg yn yr uwchradd.
- Mae staff Ysgol Glan Clwyd a swyddogion y sir yn cydweithio ac yn ymweld â rhai ysgolion cynradd ysgolion Saesneg i annog dysgwyr i fynd i'r dosbarth trochi ym mlwyddyn 7.
- Mae swyddogion y sir yn cefnogi unigolion blwyddyn 6 sydd wedi dewis mynd i'r dosbarth trochi.
- Mae cynlluniau ar y gweill i agor dosbarth trochi yn ysgol Brynhyfryd.

## Deilliant 4

**Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg**

- Mae swyddogion y sir yn cydweithio'n agos gyda'r 6 ysgol T2 i fapio eu taith ieithyddol, llunio cynlluniau gweithredu manwl, hyfforddi a chefnogi staff a monitro datblygiadau.
- Mae nifer a chanran y dysgwyr sydd wedi'u cofrestru ar gyfer TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf, TGAU Cymraeg Ail Iaith wedi cynnyddu.
- Mae mwy o ddysgwyr yn dilyn cwrs Cymraeg mamiaith Safon Uwch ond llai yn dilyn cwrs AS.
- Mae mwy o ddysgwyr yn dilyn cwrs Cymraeg fel ail iaith AS a Safon Uwch.
- Mae'r ddwy ysgol uwchradd categori 2 yn cynnig mwy o bynciau trwy'r Gymraeg nag yn y flwyddyn flaenorol.
- Rydym mewn trafodaethau cyson gyda'r ddwy ysgol uwchradd yn ne'r sir i gynnyddu'r cynnig i astudio mwy o bynciau trwy'r Gymraeg.
- Yn dilyn trafodaethau gyda phenaethiaid y 3 ysgol sy'n cynnig addysg Gymraeg, mae nhw yn awyddus iawn i edrych ar e-sgol fel modd o gynnig mwy o bynciau trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Rydym mewn trafodaethau gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i weld sut gellir annog mwy o fyfyrwyr i astudio meysydd trwy gyfrwng y Gymraeg
- Mae rhwydweithiau uwchradd Sir Ddinbych ( un mamiaith ac un arall ail iaith) wedi eu creu i gynnig cefnogaeth i gydlynwyr Cymraeg

**Deilliant 5**
**Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol**

**Siarter Iaith**

- Mae swyddog cefnogi'r Gymraeg wedi creu gwefan 'Sglein ar Lein' sy'n adnodd defnyddiol iawn i athrawon ei ddefnyddio i ddatblygu llafaredd dysgwyr ar draws camau cynnydd 1, 2 a 3.
- Mae cynllun llafaredd y sir wedi bod yn weithredol yn yr ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg ers Medi 2023 a bydd yn parhau i gael ei ddefnyddio yn ystod y flwyddyn nesaf.
- Mae cynlluniau ar waith i greu gwefan ar wahân i Sglein Ar-lein ar gyfer hybu a dathlu'r Siarter Iaith.
- Mae pob ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg wedi derbyn y wobr aur ac rydym yn monitro i sicrhau bod y safonau aur yn cael eu cadw.
- Mae cynlluniau ar waith hefyd i gydweithio gyda Chonwy a Gwynedd i gyflwyno'r Siarter yn yr ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg (Glan Clwyd wedi sefydlu 'Byw'r Gymraeg' ac rydym mewn trafodaethau i ddatblygu hyn ymhellach).
- Mae ymweliadau tymhorol yn digwydd gyda phob ysgol i gyfarfod penaethiaid + chydlynwyr, hyfforddi staff, enghreifftio chwaraeon buarth, cyfarfod Criwiau Cymraeg, cyfarfod cydlynywyr yn y Ganolfan Iaith ayyb.
- Mae'r swyddog hefyd yn rhan o weithgaredd hunan werthuso pob ysgol yn ogystal â helpu i adnabod blaenoriaethau ar gyfer Cynlluniau Datblygu pob ysgol.
- Mae cydweithio effeithol wedi dechrau gyda Sir Conwy.

- **Cymraeg Campus**
- Mae 25 o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg wedi derbyn y wobr efydd Cymraeg Campus.
- Mae 7 o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg wedi derbyn y wobr arian Cymraeg Campus.
- Mae ysgolion yn cael eu targedu pob blwyddyn i anelu at ennill y wobr nesaf.
- Mae swyddog yr awdurdod yn cefnogi'r ysgolion yn effeithiol i gyflwyno a defnyddio'r Gymraeg.
- Creuwyd Fframwaith Cymraeg Campus o'r newydd ar gyfer y 7 ysgol uwchradd sy'n cyflwyno Cymraeg fel ail iaith yn y sir.
- Mae'r fframwaith wedi ei greu a'i rannu gyda'r cydlynwyr a thimau rheoli'r 7 ysgol uwchradd sy'n cyflwyno Cymraeg fel ail iaith.
- Mae'r 7 ysgol wedi ymrwymo i weithredu Cymraeg Campus i ddatblygu'r Gymraeg.
- Mae adnoddau ar gael a chefnogaeth i ysgolion i dderbyn y wobr efydd, arian ac aur.
- Mae Ysgol Uwchradd Dinbych wedi derbyn y wobr efydd ac yn cael ei dilysu ar gyfer y wobr arian yn nhymor yr Hydref.
- Rhagwelir y bydd o leiaf dwy ysgol arall yn derbyn y wobr efydd flwyddyn nesaf.
- Mae'r awdurdod yn cydweithio gyda'r Urdd a Maenter Iaith i flaenoriaethu cefnogaeth i rhai ysgolion ac i lunio amserlen o ymweliadau.

## Deilliant 6

**Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ("ADY") yn unol â'r dyletswyddau a bennir gan y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol**

Mae awdit blynyddol yn cael ei gynnal i gywain gwybodaeth am y ddarpariaeth Gymraeg o fewn adrannau ADY yr awdurdod.

1. Adrannau ADY yr awdurdod

- Mae pob adran (ar wahan i addysgu o gartref) yn medru cynnig gwasanaeth a chefnogaeth yn y Gymraeg i ddysgwyr sy'n dymuno hynny.
- Nid oes unrhyw adran wedi gorfod gwrthod cefnogaeth i unrhyw ddysgwr sy'n dymuno cefnogaeth trwy'r Gymraeg yn ystod y tair mlynedd ddiwethaf.
- Mae prinder adnoddau Cymraeg yn anodd i adrannau ADY y sir.
- Mae recriwtio staff sy'n medru siarad Cymraeg yn broblem.
- Mae'r awdurdod wedi hwyluso bod aelod o staff y cyngor yn cael ei hyfforddi i fod yn seicolegydd addysg. Bydd yr unigolion hyn yn gweithio i'r awdurdod fel seicolegydd addysg ar ddiwedd ei chyfnod hyfforddi.

2. ADY ysgolion cyfrwng Cymraeg

- Mae 81% o'r cydlynwyr yn nodi bod eu hysgolion yn diwallu anghenion dysgu eu dysgwyr ADY trwy gyfrwng y Gymraeg. Prif heriau – prinder adnoddau, diffyg staff/cymhorthyddion yn siarad Cymraeg, safon ieithyddol y dysgwyr yn gyffredinol isel.
- Mae 75% yn cydweithio'n effeithiol fel clwstwr. O'r 25% oedd ddim yn cydweithio'n effeithiol, roedd cydlynydd ADY yr ysgol a chydlynydd ADY y clwstwr yn newydd i'r swydd.
- Nododd 100% nad oes digon o adnoddau ar gael trwy'r Gymraeg. Er bod adnoddau'n cael eu rhannu rhwng ysgolion, roedd bylchau amlwg mewn profion asesu, cyfresi a llyfrau darllen, adnoddau i gefnogi sillafu, rhaglenni ymyrraeth megis Toe by Toe, rhestrau gwirio anhwylderau e.e dyslecsia, adhd. System IDL yn Gymraeg.
- Mae 75% yn credu bod adrannau ADY yr awdurdod yn rhoi cefnogaeth dda i ysgolion. Nododd 25 % mai prinder deunyddiau, adnoddau a staff Cymraeg oedd y prif heriau yma.

3. Penaethiaid y dair ysgol arbennig

- Prin iawn yw'r dysgwyr Cymraeg eu hiaith yn yr ysgolion.
- Mae ambell blentyn yn cael cyfran o'u haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Mae athrawon a chymhorthyddion yn y dair ysgol â'r gallu i gefnogi dysgwyr trwy'r Gymraeg.
- Er bod y cynnig a'r ddarpariaeth yn yr ysgolion, nid oes rhiant/dysgwr wedi gofyn am agweddau o'r cwricwlwm gael eu haddysgu trwy'r Gymraeg yn y 3 blynedd diwethaf.

Mae cynnal awdit blynyddol wedi bod yn ddefnyddiol iawn i ysgogi sgwrs ymysg y gwahanol rhanddeiliaid ac i adnabod bylchau yn y ddarpariaeth. Yn gyffredinol, mae'r gefnogaeth trwy'r Gymraeg i ddysgwyr ADY y sir yn bositif ond mae heriau amlwg yn ein hwynebu, yn arbennig y diffyg adnoddau Cymraeg a'r prinder staff sy'n medru siarad Cymraeg.

Nid oes patrymau amlwg o ddewis (neu symud) i addysg cyfrwng Saesneg oherwydd diffyg yn narpariaeth neu adnoddau Cymraeg.
Mae'r cydweithio mwyaf effeithiol yn digwydd o fewn clystyrau i rannu adnoddau ac arbenigedd. Mae cyfarfodydd trawssirol i swyddogion ADY yr awdurdod ac rydym yn rhannu gwasanaethau megis y Gwasanaeth Synhwyraidd gyda siroedd cyfagos. Mae Seicolegydd Addysg Sir Ddinbych yn gwneud peth gwaith trwy gyfrwng y Gymraeg mewn siroedd eraill.

**Deilliant 7**
**Cynnydd yn nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng y Gymraeg.**

- Mae cynnydd yn nifer yr athrawon sy'n medru addysgu/gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Mae cynnydd hefyd yn nifer yr athrawon sydd ddim yn medru addysgu/gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Nid oes patrwm arwyddocaol yn y data, ond mae'n adlewyrchu' her genedlaethol i recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg.
- Mae'r awdurdod yn parhau i hyrwyddo'r cwrs sabothol ac yn falch o ddweud bod 5 athro ar y cwrs eleni gyda un o'r athrawon hyn yn gweithio mewn ysgol drosiannol T2.
- Mae staff ysgolion wedi cael cyflwyniadau am gyrsiau Dysgu Cymraeg gan Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.
- Mae'r awdurdod wedi trefnu bod 4 athro o'n hysgolion T2 yn mynychu cwrs peilot ar y cyd gydag athrawon o ysgolion T2 Sir Conwy.
- Mae 6 aelod o staff yn y Tim Cefnogi'r Gymraeg,yn golygu bod cefnogaeth i staff ac athrawon yn y sectorau cynradd ac uwchradd, Cymraeg neu Saesneg eu cyfrwng yn ogystal â chefnogaeth i hwyrddyfodiaid.
- Mae'r strwythur cefnogaeth wedi hwyluso sesiynnau hyfforddiant, cyfarfodydd ac ymweliadau er mwyn datblygu'r defnydd o'r Gymraeg yn yr ysgolion.
- Mae rhwydweithiau ysgolion uwchradd wedi bod yn hynod o ddefnyddiol i gydlynwyr y Gymraeg drafod syniadau a rhannnu arfeion da.
- Cynhaliwyd cyfarfodydd i godi ymwybyddiaeth ymysg penaethiaid holl ysgolion yr awdurdod am yr angen i gynllunio'n fwriadus i ddatblygu'r gweithlu ac i gynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg.
- Mae swyddogion y Tim Cefnogi'r Gymraeg, wedi creu a rhannu cynllun datblygu'r Gymraeg gydag arweinwyr ysgolion gan nodi gam wrth gam, sut i ddatblygu llafaredd a'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg.
- Law yn llaw â'r cynllun, mae rhaglen hyfforddiant gynhwysfawr wedi ei rhannu gan yr awdurdod.
- Mae cynlluniau gwaith datblygu llafaredd wedi eu creu a'u rhannu gyda'r ysgolion.
- Mae'r wefan 'Sglein ar Lein' yn adnodd gwych i athrawon i'w galluogi i gyflwyno patrymau iaith i'r dysgwyr.
- Mae swyddogion Cyngor Sir Ddinbych a GwE yn adnabod darpar arweinwyr o fewn y sector Gymraeg a'u datblygu'n broffesiynol.
- Mae swyddogion y sir yn astudio'r SWAC a gwneud awdit o ddarpar arweinwyr sy'n dysgu yn y sector Gymraeg a'r Saesneg.
- Mae 5 swydd Pennaeth mewn ysgol Gymraeg wedi ei llenwi eleni.

- Mae recriwtio i'r sector gofal plant yn bryder gan na all y cylchoedd fod ar agor os nad oes cymhwyster cywir gyda'r aelod staff.
- Mae Mudiad Meithrin yn darparu llawer o gyfleodd i staff drwy gyrsiau megis Cam wrth Gam a Croesi'r Bont i staff cylchoedd meithrin ac hefyd i staff lleoliadau Saesneg.
- Mae'r Mudiad yn gweithio'n agos gyda ysgolion ac yn cynnig eu gwasanaeth i staff ysgolion
- Mae'r Tim Cynhwysiant a Addysg Gynnar Blynyddoedd Cynnar wedi penodi dwy athrawes ymgynghorol sy'n siarad Cymraeg. Mae nhw'n cefnogi cylchoedd, darparu hyfforddiant Cymraeg i staff y lleoliadau ac yn gweithio ar y cyd â Mudiad Meithrin ac athrawon ymgynghorol y Gymraeg i gefnogi hyrwyddo'r Gymraeg mewn lleoliadau Saesneg eu hiaith.
- Mae'r Tim Gofal Plant a Datblygu Chwarae yn gweithio mewn partneriaeth â PACEY Cymru i recriwtio siaradwyr Cymraeg i ystyried gyrfa ym maes gwarchod plant.
- Mae hyfforddiant trwy Camau yn cael ei hyrwyddo i gefnogi ymarferwyr sydd am ddatblygu eu sgiliau ieithyddol.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | **Pwyllgor Craffu Perfformiad** |
| **Dyddiad y cyfarfod** | **26 Medi 2024** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol** | **Diane King (Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Phobl Ifanc), Geraint Davies (Pennaeth Addysg)** |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | **Geraint Davies, Pennaeth Addysg** |
| **Awdur yr Adroddiad** | **Jacqueline Chan (GwE), Mair Herbert (GwE), James Brown (CSDd) a Ruth Thackray (CSDd)** |
| **Teitl** | **Cwricwlwm i Gymru** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar y cynnydd a wnaed gan ysgolion ers i'r Cwricwlwm i Gymru ddod yn statudol ym mis Medi 2022. Mae'r adroddiad yn cynnig gwybodaeth am wersi a ddysgwyd o werthusiadau ar draws ysgolion yn ystod y cam gweithredu dechreuol hwn ac unrhyw effaith ar staff a dysgwyr.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Nodi'r cynnydd a wnaed o ran gweithredu a chynnwys y Cwricwlwm newydd i Gymru: mewn ysgolion cynradd ac ym mlwyddyn 7 ac 8 mewn ysgolion uwchradd – beth sydd wedi gweithio'n dda, meysydd ar gyfer gwelliant a gwersi a ddysgwyd gan bob budd-ddeiliad yn ystod y cam gweithredu dechreuol; a darparu gwerthusiad o'r broses weithredu ar draws pob cam allweddol, effaith y Cwricwlwm ar recriwtio a chadw staff, ac adborth gan benaethiaid, athrawon a staff ysgolion am eu profiadau o'r broses weithredu a manteision a/neu anfanteision y Cwricwlwm newydd i ddysgwyr.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Estynnir gwahoddiad i Craffu i drafod manylion yr adroddiad hwn ac i nodi unrhyw agwedd ar y gwaith Cwricwlwm i Gymru a fyddai'n elwa o archwiliad manwl yn y dyfodol.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Ym mis Medi 2022, daeth y Cwricwlwm i Gymru yn statudol i'r holl ddysgwyr o'r Dosbarth Meithrin i Flwyddyn 6. Roedd pob ysgol uwchradd a lleoliad wedi dechrau gyda'r Cwricwlwm i Gymru ym Mlynyddoedd 7 ac 8 erbyn mis Medi 2023.

4.2. Mae bob ysgol wedi dylunio eu cwricwlwm yn unol â'r Pedwar Diben i fodloni gofynion gorfodol y Cwricwlwm i Gymru ac, o ganlyniad, mae ganddynt gynnig cwricwlwm cytbwys i fodloni anghenion pob dysgwr. Mae'r broses o gyflwyno'r Cwricwlwm fesul dipyn mewn ysgolion uwchradd wedi cael effaith wahanol i'r broses gyflwyno fyrrach mewn ysgolion cynradd a bu arweinwyr ac ymarferwyr mewn ysgolion uwchradd yn ymwneud â newid parhaus a sylweddol bob blwyddyn rhwng 2022 a 2026. Bydd Blwyddyn 9 yn dechrau'r Cwricwlwm newydd ym mis Medi 2024. Bydd dau gam arall o'r broses weithredu yn dilyn wrth i'r dysgwyr hyn ddechrau'r cymwysterau 14-16 newydd yn 2025, a'r dysgwyr Blwyddyn 8 presennol yn 2026. Mae pob ysgol wedi datblygu dogfennau crynhoi'r Cwricwlwm ac maent ar gael i rieni a'r gymuned leol, yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru.

4.3. Mae'r Awdurdod Lleol wedi sicrhau bod holl gefnogaeth y Cwricwlwm yn alinio â disgwyliadau ac egwyddorion y Daith i Weithredu'r Cwricwlwm, Llywodraeth Cymru, trwy sgyrsiau proffesiynol rheolaidd gydag Ymgynghorydd cyswllt Cefnogi Gwelliant pob ysgol ac amrywiaeth o gyfleoedd dysgu proffesiynol ar lefel clwstwr, cynghrair (mewn ysgolion uwchradd) ac ysgolion unigol. Mae rhwydweithiau wedi rhannu eu hymarfer trwy ganolfan gefnogaeth GwE a digwyddiad rhannu marchnadle i'r holl ysgolion rhanbarthol lle bu ymarferwyr o ysgolion Sir Ddinbych yn cyflwyno a rhannu eu gwaith. Mae ysgolion yn gweithio'n fwy effeithiol mewn clystyrau i ddatblygu darpariaeth a dealltwriaeth ar draws y continwwm. Mae hyn yn gryfach mewn rhai clystyrau na rhai eraill ac mae rhagor o waith i'w wneud i gryfhau'r sgyrsiau yn y clwstwr a sicrhau gwelliant a rennir. Mae prosesau

trosglwyddo yn gwella ond mae angen datblygu hyn ymhellach i gefnogi disgyblion yn effeithiol ar bwyntiau allweddol.

4.4. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi croesawu'r Cwricwlwm i Gymru fel proses ddiwygio addysg gadarnhaol ac maen nhw'n parhau i ddatblygu eu harfer. Mae hyn yn cymryd amser ac mae rhai ysgolion yn dal i'w chael hi'n anodd newid. O ganlyniad, gall y cwricwlwm ymddangos yn eithaf llawn mewn rhai ysgolion.

4.5. Mae llawer o athrawon ac ysgolion wedi dilyn dull mwy creadigol o ran y cwricwlwm, gydag amrywiaeth o strategaethau newydd fel Cwestiwn Mawr a dysgu ar sail ymholi. Pan fo ysgolion yn effeithiol, maen nhw'n datblygu disgyblion yn dda fel dysgwyr annibynnol a rhoi cyfleoedd iddynt benderfynu sut i gyflwyno eu gwaith – fodd bynnag, mae bwlch mawr rhwng yr arfer mwyaf effeithiol a'r arfer lleiaf effeithiol.

4.6. Mae llawer o ysgolion wedi cymryd y cyfle i adolygu eu cwricwlwm yn llwyddiannus ac maent wedi datblygu cwricwlwm mwy lleol sy'n adlewyrchu anghenion yr ysgol, y gymuned a Chymru yn gyffredinol yn well. Mae disgyblion wedi eu hymgysylltu fwy mewn nifer o ysgolion gan fwynhau cwricwlwm eang a chytbwys gyda mwy o ddilysrwydd a phwrpas. Fodd bynnag, mae angen datblygu hyn ymhellach mewn nifer o ysgolion.

4.7. Er eu bod wedi wynebu her ddechreuol wrth golli sicrwydd lefelau a chanlyniadau, mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi addasu'n llwyddiannus i systemau asesu sydd ag amrywiaeth o asesiadau athrawon.  Mae lleiafrif o ysgolion yn dal i fod yn ansicr iawn am asesiadau ac nid oes ganddynt hyder mewn rhai agweddau rhag ofn nad ydynt yn 'gwneud y peth iawn'. Mae ysgolion wedi ymgysylltu'n dda gyda Dysgu Proffesiynol, gydag effaith gadarnhaol yn gyffredinol ar safonau. Fodd bynnag, mae ysgolion yn pryderu am eu gallu i barhau i gael mynediad at hyn, gyda'r newidiadau o ran cyllid.

4.8. Canlyniad o'r fframwaith gallu digidol newydd, cyllid EdTech sylweddol, y cwricwlwm newydd a'r pandemig yw bod bron pob ysgol wedi gwella a datblygu eu darpariaeth TGCh yn llwyddiannus, gan arwain at fwy o hyder a sgiliau o ran disgyblion a staff.

4.9. Iechyd a lles fel Maes Dysgu a Phrofiad yw un o'r newidiadau mwyaf sylweddol yn y cwricwlwm ac mae bron pob ysgol wedi rhoi mwy o ffocws ar hyn.  Bu cynnydd

mawr o ran nifer yr ysgolion sydd wedi buddsoddi mewn Ysgolion Coedwig a dysgu yn yr awyr agored.

4.10 Mae nifer o heriau sy'n gysylltiedig â'r broses weithredu. Mae angen monitro er mwyn olrhain a gwirio cynnydd ond mae hyn wedi'i gyfyngu gan y ffaith bod angen i nifer o benaethiaid gynyddu eu hymrwymiadau addysgu oherwydd heriau o ran cyllid. Mae hyn yn effeithio ar allu i arwain. Mae'r cwricwlwm y bydd disgyblion yn ei gael yn dibynnu ar beth mae eu hathrawon ac arweinwyr dylunio'r cwricwlwm yn eu hysgolion yn ei greu, a pha mor arloesol a chreadigol ydynt. Mae angen i'r proffesiwn sicrhau profiad teg mewn system sy'n mynd ati i hyrwyddo gwahaniaeth. Mae'r sector yn edrych ymlaen at gael yr enghreifftiad a'r cyfarwyddyd ychwanegol gan Lywodraeth Cymru o ran y diwygio hwn.

4.11 Gyda chynifer o ddiwygiadau sylweddol a chydamserol yn y sector, yr heriau parhaus y mae ysgolion yn eu hwynebu o ganlyniad i bandemig COVID a'r sefyllfa ariannol gynyddol anodd, nid yw'n bosibl penderfynu a yw gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru yn effeithio ar recriwtio a chadw athrawon. Nid yw awduron yr adroddiad yn ymwybodol bod unrhyw athrawon wedi gadael y proffesiwn oherwydd y diwygio penodol hwn, er y newid sylweddol o ran arfer mae'n ei olygu i nifer o weithwyr proffesiynol. Fodd bynnag, mae tystiolaeth anecdotaidd fod ffactorau a diwygiadau eraill yn cael effaith ar gadw staff mewn swyddi allweddol mewn ysgolion.

## 5 Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1 Mae'r maes gwaith hwn yn cyfrannu at wneud Sir Ddinbych yn lle iachach a hapusach ble mae pobl ifanc eisiau byw a gweithio a gyda'r sgiliau i wneud hynny fel nodir o fewn y Pedwar Diben. Mae hefyd yn cyfrannu at wneud Sir Ddinbych yn le ble gall pobl ifanc ddysgu a gwneud cynnydd da yn eu sgiliau, gan ddysgu mewn amgylchedd teg a diogel. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod bob dysgwr yn cael y dechrau gorau mewn bywyd ac yn gallu gwireddu eu potensial llawn.

## 6 Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Bydd y Cyngor yn parhau i gysylltu â GwE er mwyn defnyddio Grant Addysg yr Awdurdod Lleol yn effeithlon ac effeithiol i gefnogi ysgolion i weithredu'r

diwygiad. Ychydig o effaith fydd hyn yn ei gael ar wasanaethau eraill yn y Cyngor.

## 7 Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1 Mae diwygio'r cwricwlwm yn ofyniad mewn deddfwriaeth ac mae'n rhaid i bob ysgol ei weithredu. Llywodraeth Cymru sy'n cyfarwyddo'r newidiadau, nid y Cyngor, felly nid oes Asesiad o Effaith ar Les wedi'i gwblhau ar gyfer yr adroddiad hwn.

## 8 Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1 Trwy drafod gyda GwE, mae trafodaeth reolaidd gyda chydweithwyr ar draws Cymru a Llywodraeth Cymru i gasglu adborth ac adnabod agweddau ar gyfer trafodaeth a datblygiad pellach. Mae craffu wedi cael adroddiad yn flaenorol ar gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru.

## 9 Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Mae'r Cyngor yn wynebu heriau ariannol sylweddol ar hyn o bryd a fydd yn effeithio ar y capasiti i ddarparu gwasanaethau a chyflawni prosiectau a blaenoriaethau corfforaethol. Mae pawb yn ymwybodol o'r pwysau sylweddol sydd ar ysgolion, gan gynnwys effaith cyflwyno diwygiadau cydamserol, fel y Cwricwlwm i Gymru y cyfeirir ato ym mharagraff 4.11, ac maent wedi ymrwymo i leihau'r effaith ariannol ar ysgolion gymaint ag sy'n bosibl, fodd bynnag, nid yw'n bosibl diogelu ysgolion yn llwyr.

## 10 Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Mae gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru yn cael ei adolygu gan Estyn fel rhan o'u gwaith archwilio. Mae'r awdurdod lleol a GwE eisoes yn gweithio mewn partneriaeth er mwyn monitro a chefnogi ysgolion i'w weithredu, ac felly yn lleihau'r risgiau cysylltiedig.

10.2 Mae adolygiad Llywodraeth Cymru o wasanaethau haen ganol mewn addysg yn peri risg i'r gwasanaeth a ddarperir i ysgolion trwy newid model a staff. Er mwyn lliniaru'r risg hon, lle bynnag bo'n bosibl, mae newidiadau bach i gefnogi

ymgynghorwyr gwelliant ac mae cynlluniau cefnogi pwrpasol ar waith ar gyfer pob ysgol.

## 11 Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1 Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000.

11.2 Adrannau 7.3, 7.4.1 a 7.4.2 o Gyfansoddiad y Cyngor.

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | **Pwyllgor Craffu Perfformiad** |
| **Dyddiad y Cyfarfod** | **26 Medi 2024** |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | **Catrin Roberts, Pennaeth Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol: Pobl** |
| **Awdur yr Adroddiad** | **Rhian Evans, Cyd-lynydd Craffu** |
| **Teitl** | **Rhaglen Waith Craffu** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r adroddiad yn gofyn i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad adolygu ei raglen gwaith i'r dyfodol drafft (gweler Atodiad 1). Wrth ei hadolygu gofynnir i'r Pwyllgor adlewyrchu ar sut y gall Craffu gefnogi'r gwaith o gyflawni Cynllun Corfforaethol y Cyngor a'i nod o ddod yn Ddi-Garbon Net ac yn Ecolegol Bositif erbyn 2030, tra ar yr un pryd flaenoriaethu materion sydd yn nhŷb y Pwyllgor yn bwysig craffu arnynt.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Gofyn i'r Pwyllgor adolygu a chytuno ar ei raglen gwaith i'r dyfodol, a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau ar faterion perthnasol.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor yn:

3.1 ystyried yr wybodaeth a ddarparwyd ac yn cymeradwyo, diwygio neu'n newid ei raglen gwaith i'r dyfodol fel y gwêl yn briodol; ac

3.2 yn penderfynu os oes unrhyw prif bwyntiau neu themau o'r cyfarfod hwn y dymuna dynnu sylw atynt trwy'r wasg a/neu'r cyfryngau cymdeithasol.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1 Mae Adran 7 Cyfansoddiad Cyngor Sir Ddinbych yn nodi cylch gorchwyl, swyddogaethau ac aelodaeth pob Pwyllgor Craffu, yn ogystal â rheolau gweithdrefnau a trafodaethau.

4.2 Mae'r Cyfansoddiad yn amodi bod yn rhaid i bwyllgorau craffu'r Cyngor osod, ac adolygu'n rheolaidd, rhaglen ar gyfer eu gwaith i'r dyfodol. Trwy adolygu a blaenoriaethu materion, gall aelodau sicrhau bod y rhaglen waith yn cyflwyno agenda a arweinir gan yr aelodau.

4.3 Arfer sydd wedi'i fabwysiadu yn Sir Ddinbych ers nifer o flynyddoedd yw bod pwyllgorau craffu'n cyfyngu ar nifer yr adroddiadau a ystyrir mewn unrhyw gyfarfod i uchafswm o bedwar, yn ogystal ag adroddiad rhaglen waith y Pwyllgor ei hun. Nod y dull hwn yw hwyluso trafodaeth fanwl ac effeithiol ar bob pwnc.

4.4 Yn y blynyddoedd diweddar mae Llywodraeth Cymru (LlC) ac Archwilio Cymru (AC) wedi tynnu sylw at yr angen i gryfhau rôl craffu ar draws llywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys defnyddio craffu fel modd o ymgysylltu â phreswylwyr a defnyddwyr gwasanaeth. O hyn allan, disgwylir i graffu ymgysylltu'n well ac yn amlach â'r cyhoedd gyda bwriad i sicrhau penderfyniadau gwell a fydd yn y pen draw yn arwain at well canlyniadau i ddinasyddion. Bydd Archwilio Cymru yn mesur effeithiolrwydd craffu wrth gyflawni'r disgwyliadau hyn.

4.5 Gan ystyried y weledigaeth genedlaethol ar gyfer craffu a chanolbwyntio ar yr un pryd ar flaenoriaethau lleol, gwnaeth y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu (GCIGC) argymell y dylai pwyllgorau craffu'r Cyngor, wrth benderfynu ar eu rhaglenni gwaith, ganolbwyntio ar y meysydd allweddol canlynol:

- arbedion ar y gyllideb a'r Rhaglen Drawsnewid;
- cyflawni Themau y Cynllun Corfforaethol (gyda phwyslais arbennig ar y modd o'u cyflawni yn ystod cyfnod o galedi ariannol);

- unrhyw eitemau eraill a gytunwyd gan y Pwyllgor Craffu (neu'r GCIGC) fel blaenoriaeth uchel (yn seiliedig ar y meini prawf profion PAPER - gweler ochr gefn y 'Ffurflen Cynnig gan Aelodau' yn Atodiad 2); a
